

Cofion

Yr ydym yn parhau i gofio yn ein gweddïau am y rhai sydd mewn anhwylder y dyddiau hyn gan eu cyflwyno'n dyner i ofal yr Arglwydd. Cofiw'n arbennig am Glenys Jones (Llanefydd) sydd yn ôl yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn anffawd. Hefyd Elizabeth Jones (Groes) ac Elizabeth Hughes (Llansannan) – y ddwy ohonynt hwythau yn parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Cyflwynwn y tair ohonynt, ac eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod cystal eu hiechyd ar hyn o bryd, i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo gysgodu drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.

LLANW – Ebrill 6ed–10fed

Os oes unrhyw un arall ag awydd cyd-deithio ar un neu fwy o'r diwrnodau i wyl Llanw fydd yn cael ei chynnal yng Nghricieth eleni, plis gadewch i Mair wybod **yn y dyddiau nesaf**. Yn yr un modd, os oes unrhyw un yn dymuno cael aros yno am yr wythnos, nid yw'n rhy hwyr i chi archebu lle! Holwch Rhodri am fanylion.

Mae hon yn wyl ar gyfer pobl o bob oed a gobeithiwn dros yr wythnosau nesaf fedru cynnwys mwy o wybodaeth am yr hyn fydd yn digwydd yno, ond dyma ragflas i chi:

Bydd oedfa'r bore yn cael ei chynnal am 10:00 (Mawrth – Iau) gyda Rhodri Glyn yn pregethu; a bydd oedfa yn cael ei chynnal am 7:00 yr hwyr (Llun – Iau) gyda'r canlynol yn pregethu:

- Nos Lun: Rhys Llwyd (Gweinidog Eglwys Caersalem, Caernarfon ac sy'n un o olygyddion 'Cristion')
- Nos Fawrth: Steffan Morris (Arweinydd dan hyfforddiant yng nghylch y Bala)
- Nos Fercher: Ben Thomas (Gweinidog Eglwys Deuluol Cricieth)
- Nos Iau: Emyr James (Cyd-weinidog yn Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd)

Bydd darpariaeth ar gyfer yr ifanc yn ystod yr oedfaon, a bydd grwpiau bach, seminarau, a gweithgareddau hwyliog amrywiol wedi eu trefnu ar gyfer y prynhawniau (Mawrth – Iau). **Nid oes raid i chi fynd i bob un o'r digwyddiadau – croeso i chi ddewis.** Mwy o wybodaeth y tro nesaf gobeithio!

I ddod

- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 2il, ac Ebrill 2il – 6ed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: 0871 222 0201 / www.wordaliveevent.org
- **MYFYRDOD Y GRAWYS** nos Fercher, Ebrill 1af – mwy o fanylion wythnos nesaf.
- **OEDFA BORE'R GROGLITH I'R FRO** – Oedfa gymun yn Llansannan am 10.30.
- **OEDFA'R GROGLITH** yng Nghapel Cefn Berain nos Wener, Ebrill 3ydd am 7.00. Pregethir gan y Parch. Dafydd Rees Roberts.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 22^{ain} Mawrth 2015 (BCND tud.525 / BCN: tud.479)

Darlleniad y Dydd

Salm 65


www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd wrth i ni nesau at y Pasg. Efallai i mi sôn o'r blaen am ddisgrifiad y Parch. Isaac Jones, fy nghyn-weinidog yn Abergele, o lyfr y Salmau. Dywedodd ei fod yn gweld llyfr y Salmau yn debyg i gaeau fferm – rhai o'r caeau ymhell i ffwrdd ac ychydig yn ddieithr, ond eraill yn agos i'r tŷ lle byddai'r ffermwr yn dod â'r defaid i wyna ac i gadw llygaid mwy gofalus drostynt. Caeau lle mae'r ffermwr yn troedio'n amlach yw'r rhai agosaf, ac mae ambell i Salm yn fwy cyfarwydd i ni gan ein bod yn troi atynt yn amlach. Mae Salm 23 yn enghraifft o hyn ac mae'r Salm heddiw – Salm 65 – hefyd yn 'gae agos i'r buarth' i lawer.

Pan feddyliwn ni am y digwyddiadau mawr yn hanes Iesu wrth iddo agosáu at yr wythnos fawr, mae Gethsemane yn dod i'r cof. Dyma ardd y weddi ingol a'r chwys 'fel defnynnau o waed'. Nid nad oedd gweddi yn ddieithr i'r Iesu – roedd ei holl fywyd wedi ei drwytho gan weddi – ond mae'r weddi hon yn disgwyl am ateb dychrynlyd. Yn y Salm mae'r gwirionedd yn cael ei fynegi mai trwy ffyrdd dychrynlyd y mae Duw yn ateb gweddi. Nid yn y ffordd y byddwn ni yn ei ddisgwyl ond yn unol â'i fwriadau Ef y daw'r ateb.

Gweddi Iesu yng Ngethsemane oedd y fan ple'r enillodd y frwydr fawr yn erbyn ofn ac yn erbyn y Temtiwr oedd, unwaith eto, yn ei annog i adael llwybr ewyllys Duw a cheisio ffordd wahanol. Fel ein Harchoffeiriad perffaith a ffyddlon, mae Iesu yn llwyddo i ildio i ewyllys ei Dad o'r newydd, a thrwy hynny, diau ei fod wedi cael y nerth i godi a mynd ymlaen i wynebu ei fradychwr a llid ei elynion. Yn rhyfeddol iawn y mae hefyd yn gallu wynebu'r groes gan wybod y byddai yn cael ei wahanu oddi wrth ei Dad, yn dioddef cosb ein pechod ni ond hefyd yn cael ei ogoneddu trwy ei atgyfodiad a'i ddyrchafiad.

Ia, trwy ffyrdd annisgwyl y mae Duw yn ateb gweddi pob un sydd yn dweud: "Nid fy ewyllys i, ond dy ewyllys Di a wneler".

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Aneurin

Darlleniad Wythnos Nesaf

Ioan 10: 7-15 (BCND tud.113 / BCN: tud.104)

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 22^{ain}

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.

Llun – 23^{ain}

- **Cwrdd Chwarter** yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 7.00 pan fydd y Parch. Casi Jones, Swyddog Cynnal ac Adnoddau UAC y Gogledd yn annerch.

- **Gwaith Cwrs yr Ysgolion Sul** - Cofiwch fod angen mynd â'r cyweithiau i Gapel y Dyffryn, Llandyrnog heno rhwng 7.00 ac 8.00. A fyddech cystal â rhoi enw'r capel a rhestr o enwau'r plant ar y gwaith, os gwelwch yn dda?

Iau – 26^{ain}

- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.

Gwener – 27^{ain}

- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.

Sul nesaf – 29^{ain}

- **Oedfa'r Fro ar Daith** yn Llanfair am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 22^{ain}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Sul nesaf – 29^{ain}

Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

Sul yma – 22^{ain}

Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Cinio'r Jangl am 12.00.

Iau – 26^{ain}

Sul nesaf – 29^{ain}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 22^{ain}

Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Sul nesaf – 29^{ain}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

Sul yma – 22^{ain}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Sul nesaf – 29^{ain}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Henllan a Groes

Sul yma – 22^{ain}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Sul nesaf – 29^{ain}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith yn Henllan am 10.00 pryd y bydd Manon a Llyr Morris yn cyflwyno Anni Haf i gael ei bedyddio. Yn ystod yr oedfa hefyd, fe fydd aelodau Capel Henllan yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 22^{ain}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.

Sul nesaf – 29^{ain}

Bydd y Parch. John Pritchard yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.